Trydan Gwyrdd Cymru

Ynni i ffynnu. Power to prosper.

Fferm Solar Larnog

Mynediad

1. Mynediad da i'r Safle o'r briffordd leol.
2. Cyd-weithio'n agos gyda Chyngor Bro Morgannwg i gydnabod cyfleoedd i wella rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus.

Amaethyddiaeth

3. Caeau yn cadw at ddefnydd amaethyddol.
4. Gall da byw bori o gwmpas ac o dan paneli solar, gan amrywio arferion ffermio ac iechyd y pridd.

Bioamrywiaeth

5. Mae'r dyluniad yn osgoi Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur (SBCN).
6. Cyd-weithiwn gyda Chyngor Bro Morgannwg, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru i wella bioamrywiaeth o gwmpas y safle.
7. Bydd gwrychoedd a choridorau bywyd gwyllt yn gwella cysylltedd â gweddill y Safle a Gwarchodfa Natur Trwyn Larnog.
8. Lleoliad banciau gwenyn.
9. 'Pentyrrau cynefinoedd' - pentyrrau o ddeunyddiau naturiol sy'n darparu lloches a bwyd i ymlusgiaid a mamaliaid.
10. 'Coridorau bywyd gwyllt': clustog tua 10m rhwng seilwaith ac ymyl y cae, lle gallwn blannu blodau gwyllt.
11. Ein nod yw plannu rhywogaethau brodorol o wrychoedd a choed, fel cyll, draenen wen, draenen ddu, gwyddfid, cwyros, celyn, derw, sycamorwydd, masarn, bedw arian, ac afal sur.
12. Mae cyfleoedd i ddatblygu gwrychoedd presennol i ddenu bywyd gwyllt, yn enwedig pathewod ac ystlumod.
13. Blychau ystlumod ac adar ar goed a seilwaith.
14. Gofod rhwng eiddo yn creu cyfleoedd i ehangu a gwella cynefinoedd.
15. Mae ardaloedd o goetir wedi cael eu hosgoi ar draws y safle, gan gynnwys coetir sydd wedi'i ddynodi â Gorchmynion Diogelu Coed.

Hydroleg

16. Bydd Systemau Draenio Cynaliadwy yn cael eu hymgorffori.

Tirwedd a gweledol

17. Gofod rhwng paneli solar a llwybrau troed, megis Llwybr Arfordir Cymru yn cynnal natur agored yr amgylchedd leol.
18. Dim paneli solar yma, er mwyn osgoi y posibilrwydd o nodweddion archeolegol.
19. Bydd goleuo yn sensitif.

Allwedd / Legend

- Ffin y safle *Site Boundary*
- Ardal Datblygu Arfaethedig *Proposed Development Area*
- Datblygiad Solar Arfaethedig *Proposed Solar Development*
- Datblygiad Solar Arfaethedig neu Gyfansoddyn Is-orsaf (gan gynnwys Storio Batri) *Proposed Solar Development or Substation Compound (including Battery Storage)*
- Llwybr Teithio Llesol Sili-Cosmeston *Sully-Cosmeston Active Travel Route*
- Hawliau Tramwy Cyhoeddus *Public Rights of Way*
- Llwybr Arfordir Cymru *Wales Coastal Path*
- Coed, gwrychoedd ac ardaloedd coediog *Trees, hedgerows, and wood areas*
- Adeiladau *Buildings*

Delweddau/Images: © Hawlfraint y Goron / Crown copyright Cymru Wales. © Getty Images

Larnog Solar Farm

Access

1. Good Site access from local highway.
2. Work closely with the Vale of Glamorgan Council to identify opportunities for improvements to the PRoW network.

Agriculture

3. Fields retained for agricultural use.
4. Animals can graze under and around solar panels, diversifying farming practices and improving soil health.

Biodiversity

5. Sites of Importance for Nature Conservation (SINC) are avoided.
6. Work with the Vale of Glamorgan Council, the Wildlife Trust of South and West Wales and Natural Resources Wales to improve biodiversity across the site.
7. Hedgerows and wildlife corridors to connect across the Site and with Lavernock Head Nature Reserve.
8. Potential bee banks.
9. 'Habitat piles' – heaps of natural materials providing shelter and food for reptiles and mammals.
10. 'Wildlife corridors': a 10m buffer between infrastructure and edge of the field, where we can plant wildflower.
11. We aim to plant native species of hedgerow and trees, such as hazel, hawthorn, blackthorn, honeysuckle, dogwood, holly, oak, sycamore, maple, silver birch, and crab apple.
12. We plan to improve existing hedgerows to attract wildlife, particularly dormice and bats.
13. Bat and bird boxes on trees and infrastructure.
14. Excluded to increase separation from properties. Potential to create habitats.
15. Areas of woodland have been avoided across the site, including woodland designated with Tree Preservation Orders.

Hydrology

16. Sustainable Drainage Systems (SuDS) will be implemented.

Landscape and visual

17. Solar panels set back from Wales Coastal Path and footpaths to maintain openness.
18. Excluded to increase separation from properties and avoid potential archaeological features.
19. Substation lighting will be wildlife friendly.

www.trydangwyrddcymru.wales
croeso@trydangwyrddcymru.wales

Mae Trydan Gwyrdd Cymru yn eiddo i **Lywodraeth Cymru**
Trydan Gwyrdd Cymru is owned by the **Welsh Government**

Trydan Gwyrdd Cymru

Ynni i ffynnu. Power to prosper.

Croeso i'n digwyddiad ar gyfer Fferm Solar Larnog

Diolch am ddod i ddysgu am ein cynigion cynnar

Rydym ni yma i drafod y prosiect gyda chi. Rydym ni'n hapus i sgwrsio i'ch helpu i ddeall ein cynlluniau arfaethedig.

Byddem yn gwerthfawrogi pe gallech gymryd amser i edrych ar y wybodaeth a chynllun y cysyniad tirwedd.

Mae eich adborth yn bwysig iawn. Mae'n helpu i lunio'r prosiect wrth iddo ddatblygu ac wrth i ni ystyried opsiynau a chyfleoedd i ddylunio'r prosiect gorau ar gyfer yr ardal leol.

Gwybodaeth am **Trydan Gwyrdd Cymru**

Trydan yw'r unig gwmni ynni sy'n gweithio i bobl Cymru.

Rydym ni'n gwmni ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru.

Rydym ni'n gweithredu er budd Cymru, gyda holl elw ein prosiectau'n cael ei ail-fuddsoddi yng nghymunedau Cymru ac er budd Cymru.

Ein **cenhadaeth** yw:

- Rhoi'r pŵer i Gymru ffynnu trwy ddatgloi ein potensial ynni adnewyddadwy, gyda ffocws ar ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy yn bennaf o fewn Ystâd Llywodraeth Cymru. Ein nod yw cael pobl a natur i weithio gyda'i gilydd i adeiladu dyfodol glanach a mwy disglair.
- Cynnig buddion i'n cymdeithas, ein hamgylchedd, ein heconomi a phawb sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru heddiw.
- Darparu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a sicrhau buddion hirdymor i Gymru.

Ein **nodau** yw:

- Datblygu 1 GW o gapasiti cynhyrchu ynni adnewyddadwy newydd yng Nghymru erbyn 2040.
- Bod yn ddatblygwr enghreifftiol, gan weithio gyda chymunedau a'r diwydiant ehangach.
- Cynghori a gweithio gyda'r sector cyhoeddus, i wireddu cynhyrchu ynni adnewyddadwy sy'n eiddo lleol.

Gadewch i ni weithio gyda'n gilydd i greu'r ynni i ffynnu.

Gallwch **fynegi eich barn** ar y prosiect drwy:

- Lenwi ffurflen adborth heddiw (mae copïau ar gael yn yr arddangosfa hon).
- Llenwi ffurflen adborth ar wefan y prosiect cyn **5pm ddydd Gwener 23 Ionawr 2026.**

Sganiwch y cod QR.

www.trydanlarnog.cymru | croeso@trydanlarnog.wales | 029 2003 8780

Trydan Gwyrdd Cymru

Ynni i ffynnu. Power to prosper.

Dyma Fferm Solar Larnog

Mae'r prosiect wedi'i leoli ar dir sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru yn Larnog. Fe'i defnyddir ar gyfer amaethyddiaeth, ac mae cerddwyr yn mwynhau'r ardal ar hyd Llwybr Arfordir Cymru a Hawliau Tramwy Cyhoeddus eraill.

Rydym ni'n cynnig:

- Hyd at 35 MW o drydan glân, digon i bweru anghenion trydan cyfatebol tua **13,800 o gartrefi cyffredin yng Nghymru***
- Paneli ffotofoltäig solar (PV) wedi'u gosod ar y ddaear
- System Storio Ynni Batri
- Is-orsaf ar y safle a seilwaith cysylltiedig arall
- Elw yn ôl i'r pwrs cyhoeddus
- Gwelliannau i gynefinoedd
- Buddion cymunedol lleol a chyfleoedd i'r gymuned gymryd rhan
- Trydan glân – a fydd yn helpu i sicrhau ein ynni yn y dyfodol a mynd i'r afael â newid hinsawdd



Pam mae angen ynni solar arnom?

Diogeledd Ynni

Mae'r rhan fwyaf o'r nwy rydym ni'n ei losgi yn y ddwy brif orsaf bŵer nwy yng Nghymru yn cael ei fewnforio. Bydd cael ein cyflenwad ynni dibynadwy ein hunain yn lleihau pa mor agored i niwed ydym ni gan farchnadoedd tanwydd ffosil byd-eang a digwyddiadau byd-eang.

Fel arfer, mae prosiectau solar yn gyflymach i'w datblygu, eu hadeiladu a'u cysylltu â'r grid, sy'n eu gwneud yn rhan bwysig o'r cymysgedd ynni.

Ychydig o rannau symudol sydd gan systemau paneli solar, felly maent fel arfer yn hawdd i'w cynnal a'u cadw, dim ond glanhau a gwiriadau achlysurol sydd eu hangen. Mae'n dechnoleg sydd wedi'i phrofi, sy'n hysbys am fod yn ddibynadwy ac yn effeithiol.

Targed pŵer glân 2030 llywodraeth y DU ar gyfer solar yw cyrraedd cyfanswm capasiti wedi'i osod o 45-47 gigawat (GW), sy'n gynnydd sylweddol o'i gymharu â chapasiti 2025 o 18.1 GW.

Newid yn y galw

Erbyn 2035, bydd llawer mwy o agweddau ar ein bywydau, gan gynnwys gwresogi ein cartrefi a'n gweithleoedd, rhedeg ceir, bysiau a threnau, a phrosesau diwydiannol, yn cael eu pweru gan drydan, yn hytrach na llosgi tanwydd ffosil, sy'n cynhyrchu allyriadau nwyon tŷ gwydr niweidiol. Rhagwelir y bydd y galw am drydan yng Nghymru yn treblu erbyn 2050.

Newid hinsawdd

Haf 2025 oedd yr haf cynhesaf a gofnodwyd erioed yn y DU[1]. Mae tymheredd sy'n torri record a digwyddiadau tywydd eithafol yn dod yn fwy cyffredin, sy'n cael effeithiau dinistriol ar y blaned. Mae'r Swyddfa Dywydd yn nodi mai un o brif achosion y tywydd sy'n newid yw newid hinsawdd a achosir gan ddyn o ganlyniad i nwyon tŷ gwydr, fel CO_2, sy'n cael ei ryddhau i'r atmosffer pan fyddwn yn llosgi tanwydd ffosil. Mae lleihau allyriadau CO_2 yn hanfodol er mwyn lleihau difrifoldeb newid hinsawdd.

Targedau Llywodraeth Cymru

Nod Llywodraeth Cymru yw cyrraedd 100% o ddefnydd trydan Cymru o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2035. Byddai Fferm Solar Larnog yn cyfrannu'n uniongyrchol at y targedau hyn.

[1] Met Office. https://www.metoffice.gov.uk/about-us/news-and-media/media-centre/weather-and-climate-news/2025/summer-2025-is-the-warmest-on-record-for-the-uk

Amserlen ddangosol

Bwriad yr amserlen ddangosol hon yw rhoi trosolwg o'r broses ofalus y bydd Trydan yn ei dilyn, gyda'r nod o lunio'r prosiect gorau posibl. Gyda hyn, rydym ni'n golygu prosiect sydd â'r dyluniad gorau, yn y lle iawn, i sicrhau buddion hirdymor i'r ardal leol ac i Gymru.